BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2016 yn Neuadd y Dref, Wrecsam

Yn bresennol:

Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Lynda Powell	Prifysgol Glyndŵr
Lindsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Euros Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Helen Paterson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Cynghorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neil Maxwell	Heddlu Gogledd Cymru
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
John Gallanders	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Clare Field	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (o eitem 4 ymlaen)
Helen Odunaiya	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gill Grainger	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 8 yn unig)
Audrey Somerton-Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 9 yn unig)
Claire Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (eitem 9 yn unig)

Ymddiheuriadau:
Andy Jones, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Llinos Roberts, Coleg Cambria
Sian Beck, Heddlu Gogledd Cymru

		Cam Gweithredu
1	**Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd BGC Wrecsam**	
	Agorodd HP y cyfarfod a phenodwyd Rob Smith yn Gadeirydd a Lyndsey Rawlinson yn Is-Gadeirydd BGC Wrecsam. Cadeiriodd RS y cyfarfod o eitem 2 ymlaen.	
2	**Cylch Gorchwyl Drafft y BGC**	
	Mae'r Cylch Gorchwyl drafft wedi ei baratoi yn defnyddio canllawiau “Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol 3: Rôl Gytûn, Byrddau Gwasanaethau Lleol” Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cytunwyd i ddefnyddio "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol” yn lle "Awdurdodau Parciau Cenedlaethol". Yn amodol ar y	HO

	newid hwn, cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl.	
3	**Ffyrdd o Weithio Drafft y BGC**	
3.1	Yn amodol ar un newid, cymeradwywyd y ddogfen Ffyrdd o Weithio ddrafft.	HO
3.2	Cadarnhawyd bod y grant a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r BGLl wedi dod i ben. Ceir cronfa ranbarthol o arian (£45 mil) i gefnogi chwe awdurdod lleol y gogledd gyda'u hasesiadau lles. Mae grŵp swyddogion gogledd Cymru yn rheoli gwariant y gronfa hon.	
3.3	Gofynnwyd am bapur ar gymorth ariannol yn 2017-18 yng nghyfarfod mis Medi.	RS / HO
4	**Protocol Craffu Drafft**	
	Cymeradwywyd.	
5	**Ymagwedd Wrecsam at ein Hasesiad Lles**	
5.1	Cytunwyd ar ddaearyddiaeth BGC yn unol â map gwasanaethau cymdeithasol CBSW. PIPS psb wellbeing assessment.pdf	Pawb
5.2		HO
5.3	Fel rhan o'r ymgynghoriad ac i ystyried daearyddiaeth yr asesiad nesaf, cytunwyd i	AT / HO
5.4	edrych ar ofyn i unigolion pa gymunedau y maent yn teimlo'n rhan ohonynt. Dylid sicrhau bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â phrosiect "Gogledd Cymru Iach".	SR
5.5	Mae Penycae wedi ei nodi fel lle Wrecsam. Cytunwyd y bydd adroddiad Tueddiadau yn y Dyfodol Llywodraeth Cymru yn ddogfen allweddol ar gyfer asesu lles yn lleol. SR i gadarnhau'r dyddiad cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi.	RS / HO
6	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod olaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 03.03.16	
6.1	Cymeradwywyd.	
7	**Adroddiad Blynyddol y BGLl ar gyfer 2015-16 a'r adroddiad perfformiad ategol**	
7.1	Awgrymwyd mân newidiadau.	HO
7.2	Cymeradwywyd.	
8	**Prosiect Trawsrywiol, Adroddiad Terfynol**	
8.1	Datganodd HP gysylltiad â'r eitem hon.	
8.2	Darparodd GG yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect a oedd yn cael ei gefnogi gan y BGLl. Mae perthynas waith gadarnhaol wedi ei datblygu rhwng pobl drawsrywiol a darparwyr gwasanaeth yn Wrecsam, perthynas nad oedd yn bodoli o'r blaen. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn fel enghraifft o arfer da.	GG
8.3	Y cam nesaf yw prif ffrydio'r gwaith. Bydd GG yn symud hyn yn ei flaen.	GG / CF
8.4	Bydd CF a GG yn cydweithio ar y darn hwn o waith gydag ysgolion.	
8.5	Diolchodd y Cyng. Hugh Jones a'r aelodau eraill i GG am ei gwaith ar y prosiect arloesol hwn.	
9	**Gweithredu Strategaeth Trechu Tlodi BGC Wrecsam**	
9.1	Mae asesiad o anghenion trigolion y rhanbarth mewn perthynas â thlodi wedi ei edrych arno ar lefel sirol. Cytunwyd bod angen bwydo hyn i mewn i asesiad lles y BGC.	HO ASE
9.2	Cytunwyd y dylai'r grŵp trechu tlodi gyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r BGC i gynnal proffil y gwaith hwn.	ASE / AT

9.3 9.4	AT ac ASE i drafod y gwaith a gynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Sir y Fflint mewn perthynas â'r cysyniad o dlodi er mwyn ychwanegu at y gwaith hwn. RS i drafod gydag ASE sut y gall y bwrdd iechyd gefnogi'r gwaith hwn.	RS / ASE
10	**Diweddariad Llywodraeth Cymru**	
10.1	Dywedodd SR y bydd gwaith yn parhau drwy'r haf ar drefniadau cyllideb newydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhaglenni i'r dyfodol, a'r agenda diwygio Llywodraeth Leol. Bydd cyhoeddiadau pellach yn yr hydref.	SR
11	**Diweddariad Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**	
11.1 11.2	Cytunwyd i gadw'r eitem hon fel eitem sefydlog ar y rhaglen ar gyfer llywodraethu rhanbarthol. Nid oedd unrhyw ddiweddariad i'w adrodd.	HP
12	**Diweddariad Cyfamod y Lluoedd Arfog**	
12.1 12.2 12.3 12.4	Mae'r trydydd adroddiad blynyddol wedi ei gyhoeddi Agorwyd Tŷ Dewr, y cartref ar gyfer cyn-filwyr a gefnogir gan gronfeydd Libor, yn swyddogol ym mis Mai 2016. Mae Wrecsam yn un o 11 ardal yn y Deyrnas Unedig a ddewiswyd ar gyfer mynd "at wraidd y mater" mewn perthynas ag effeithiolrwydd Cyfamodau Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn cael ei fwydo yn ôl i gynhadledd CLlL ym mis Gorffennaf, a bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. Cytunwyd nad oes yn rhaid cadw'r eitem hon yn eitem sefydlog ar y rhaglen mwyach.	HO
13	**Unrhyw Fater Arall**	
13.1	Cylchredeg adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn ag WBFGA ac WBSSA.	HO

Dyddiadau Cyfarfodydd i ddod:

01.09.16	2pm tan 4pm	Ystafell Gyfarfod 2, Neuadd y Dref, Wrecsam
01.12.16	2pm tan 4pm	Ystafell Gyfarfod 2, Neuadd y Dref, Wrecsam
30.03.16	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7YU
01.06.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7YU
07.09.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7YU
07.12.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam LL13 7YU